

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol

Tachwedd 2021



1. Cefndir

Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol Llywodraeth y DU

1. Cyflwynwyd Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol¹ ('y Bil') yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 19 Gorffennaf 2021. Fe'i noddir gan Drysorlys EM.

2. Mae teitl hir y Bil yn nodi ei ddiben:

"i wneud darpariaeth o ran cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys darpariaeth ôl-weithredol i gywiro gwahaniaethu anghyfreithlon yn y ffordd y cyfyngwyd ar gynlluniau presennol o dan Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 a deddfwriaeth gyfatebol Gogledd Iwerddon; gwneud darpariaeth ar gyfer sefydlu cynlluniau pensiwn cyhoeddus newydd ar gyfer aelodau o gynlluniau pensiwn galwedigaethol cyrff a ddygwyd i berchnogaeth gyhoeddus o dan Ddeddf Bancio (Darpariaethau Arbennig) 2008; gwneud darpariaeth o ran taliadau a dyddiad ymddeol deiliaid swyddi barnwrol penodol; gwneud darpariaeth o ran gwasanaeth barnwrol ar ôl ymddeol; ac at ddibenion cysylltiedig â hynny."

3. Mae'r Bil yn y cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar hyn o bryd.

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

4. Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol y DU yn addasu neu'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

5. Ar 11 Awst 2021, gosododd Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol² (y Memorandwm) gerbron y Senedd ar gyfer y Bil.

¹ Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol, fel y'i cyflwynwyd [HL Bill 44]

² Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol, Awst 2021

6. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Memorandwm i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, gyda dyddiad cau o 4 Tachwedd 2021 ar gyfer cyflwyno adroddiad.³

Darpariaeth y mae angen cydsyniad y Senedd ar ei chyfer

7. Mae paragraffau 6 a 7 o'r Memorandwm yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o ba ddarpariaethau yn y Bil y bydd angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.

8. Nodir cymalau'r Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer yn Rhan 3 o'r Bil. Y cymalau perthnasol yw:

- Cymal 103 ac Atodlen 1, sy'n codi'r oedran ymddeol gorfodol ar gyfer deiliaid swyddi barnwrol i 75 oed.
- Cymalau 105 i 109 ac Atodlen 3, sy'n creu swydd 'eistedd ar ôl ymddeol' newydd ar gyfer deiliaid swyddi barnwrol sydd wedi ymddeol. Os bydd swydd farnwrol wedi'i rhestru yn Atodlen 3 i'r Bil, yna bydd swydd 'eistedd ar ôl ymddeol' gyfatebol yn cael ei chreu. Defnyddir yr un enw ar gyfer y swydd newydd hon â'r swydd farnwrol wreiddiol, gan ychwanegu'r geiriau '(eistedd ar ôl ymddeol)'. At hynny, rhoddir pŵer i'r 'awdurdod cenedlaethol priodol' ychwanegu at y rhestr o swyddi barnwrol yn Atodlen 3 (h.y. pŵer i greu rhagor o swyddi 'eistedd ar ôl ymddeol'). Bydd swydd 'eistedd ar ôl ymddeol' yn ddarostyngedig i uchafswm oedran o 75 oed.
- Cymal 110 ac Atodlen 4, sy'n gwneud diwygiadau sy'n ganlyniadol i Ran 3 o'r Bil. Rhoddir pŵer hefyd i'r 'awdurdod cenedlaethol priodol' wneud rheoliadau sy'n ganlyniadol i Ran 3 o'r Bil.

9. Mae Llywodraeth y DU⁴ a Llywodraeth Cymru yn cytuno ar y darpariaethau yn y Bil lle mae angen cydsyniad.

Y rhesymau dros wneud darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil

10. Mae paragraffau 8 i 13 o'r Memorandwm yn nodi'r rhesymau dros wneud darpariaeth ar gyfer Cymru yn y Bil.

11. Mae paragraff 10 o'r Memorandwm yn nodi:

³ Pwyllgor Busnes, [Amserlen ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol](#), Medi 2021

⁴ Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol, [Nodiadau Esboniadol](#), Gorffennaf 2021, Atodiad 1

"Bydd yr oedran ymddeol gorfodol diwygiedig yn gymwys i dribiwnlysoedd Cymru fel y'u diffinnir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017. O ran y tribiwnlysoedd hynny sydd ag oedran ymddeol gorfodol, bydd yr oedran hwnnw'n cynyddu o 70 i 75. Y tribiwnlysoedd hynny yw: Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru; Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru; Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru; a Thribiwnlys y Gymraeg. Ar gyfer Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru a Phanel Dyfarnu Cymru, nad oes ganddynt oedran ymddeol gorfodol ar hyn o bryd, bydd y Bil yn pennu uchafswm oedran ymddeol o 75."

12. Hefyd, mae'r Memorandwm yn datgan:

"Bydd oedran ymddeol gorfodol cyson ac ymagwedd gyson at eistedd ar ôl ymddeol ledled Cymru a Lloegr yn osgoi dewis awdurdodaeth gan ymgeiswyr ar gyfer swydd farnwrol a allai, er enghraifft, ddewis gwneud cais am benodiad yng Nghymru a Lloegr yn hytrach nag i dribiwnlys yng Nghymru pe bai'r trefniadau presennol yn parhau yng Nghymru yn unig gan y byddai ganddynt, ar y sail honno, yrfa farnwrol fyrrach a allai fod yn llai hyblyg yng Nghymru nag yn Lloegr. Yn ogystal, byddai sefyllfa wahaniaethol yn llesteirio traws-leoli rhwng barnwyr yn y tribiwnlysoedd yng Nghymru a'r tribiwnlysoedd Haen Gyntaf a Haen Uchaf. Am y rhesymau hyn, mae budd i'r system gyfiawnder yng Nghymru i'r darpariaethau yn y Bil fod yn gymwys i Gymru.

Bydd prosiect Comisiwn y Gyfraith sy'n mynd rhagddo ar ddiwygio'r Tribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru yn cyflwyno adroddiad yn ystod hydref 2021. Bydd bwrw ymlaen ag adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn cynnig y cyfle i ddatblygu polisi newydd sy'n benodol i Gymru sy'n ymwneud â thribiwnlysoedd yng Nghymru, gan gynnwys ar swyddi barnwrol, ac i gydgyfnerthu'r broses o'i roi ar waith yn neddfwriaeth Cymru. Bydd y newidiadau a nodir bellach yn y Bil, er hynny, yn cael eu gwneud a'u rhoi ar waith yn llawer cynt nag a fydd yn wir mewn perthynas ag unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol mewn ymateb i adroddiad Comisiwn y Gyfraith."⁵

⁵ Memorandwm, paragraffau 12 a 13

13. Mae'r Memorandwm yn nodi y bydd angen adolygu unrhyw ddiwygiadau i'r Bil yn ystod ei hysnt drwy Senedd y DU ac efallai y bydd angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol.⁶

14. Mae'r Memorandwm yn dod i'r casgliad:

*"Bwriad cynigion Llywodraeth y DU yn y Bil yw unioni'r driniaeth wahaniaethol rhwng barnwyr cyflogedig a barnwyr y telir ffi iddynt, a darparu ar gyfer hyblygrwydd i ddiwallu anghenion busnes drwy ganiatáu i farnwyr eistedd ar ôl ymddeol. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol gwneud darpariaeth gyfatebol ar gyfer thriwlynlysoedd Cymru fel y'u diffinnir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017, a defnyddio'r Bil i wneud y newidiadau deddfwriaethol gofynnol ar hyn o bryd, gan nodi'r prosiect sydd ar y gweill gan Gomisiwn y Gyfraith a datblygiadau polisi sy'n benodol i Gymru mewn perthynas â thriwlynlysoedd yng Nghymru."*⁷

Datganiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru o dan Reol Sefydlog 30

15. Ar 12 Awst 2021, gosododd Hannah Blythyn AS, y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol (y Dirprwy Weinidog), ddatganiad ysgrifenedig ar gyfer y Bil gerbron y Senedd o dan Reol Sefydlog 30.⁸

16. Mae'r datganiad yn nodi bod rhai darpariaethau yn y Bil "a fydd yn addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru, ond nad oes angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol o dan Reol Sefydlog 29 ar eu cyfer am nad oes gan Senedd Cymru gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â'r darpariaethau hynny."

2. Trafodaeth y Pwyllgor

17. Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 11 Hydref 2021.⁹

⁶ Memorandwm, paragraff 15

⁷ Memorandwm, paragraff 16

⁸ Llywodraeth Cymru, [Datganiad ysgrifenedig: Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol](#), 12 Awst 2021

⁹ [Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad](#), 11 Hydref 2021

Ein barn ni

18. Rydym yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, ac rydym yn cytuno â'r asesiad hwnnw.

19. Hefyd, rydym yn nodi bod y Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru, ond mewn ffordd sydd y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd felly nid oes angen cydsyniad ar gyfer y cymalau hynny. Yn lle hynny, ar gyfer cymalau o'r fath, mae Rheol Sefydlog 30 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru osod datganiad ysgrifenedig gerbron y Senedd ac rydym yn nodi'r datganiad a osodwyd gan y Dirprwy Weinidog yn sgil hynny.